cymorth cristnogol

# Cydweithio â gwirfoddolwyr




Gwirfoddolwr Cymorth Cristnogol yn mwynhau yng Ngŵyl Greenbelt.

Mae Cymorth Cristnogol yn ymroi i weithio mewn partneriaeth â chi ac â chymunedau ledled Prydain ac Iwerddon i drechu tlodi ac anghyfiawnder.

## Rydych chi'n chwarae rhan hanfodol

Fel un o wirfoddolwyr Cymorth Cristnogol, chi yw wyneb Cymorth Cristnogol yn eich cymuned leol. Os ydych chi'n trefnu casgliadau yn eich eglwys eich hun, neu'n cydweithio ag eglwysi lleol eraill i godi arian ac ymgyrchu yn erbyn anghyfiawnder byd-eang, mae eich cyfraniad yn gwbl hanfodol am eich bod yn annog eraill i gefnogi Cymorth Cristnogol a chreu byd tecach.

Rydyn ni'n awyddus i'ch cefnogi yn eich gwaith, fel eich bod yn gwybod â phwy y gallwch gysylltu i gael cymorth neu wybodaeth. Nod y canllawiau hyn yw egluro sut y gallwn ni helpu ein gilydd, a rhoi ein bywyd fel Cristnogion ar waith ac ymroi dros gyfiawnder yn ein byd.

## Byddwn ni'n eich helpu chi drwy:

- ymateb i ymholiadau'n brydlon
- darparu gwybodaeth ac adnoddau
- anfon pecynnau gwybodaeth ac e-byst rheolaidd
- cysylltu dros y ffôn, trwy e-bost, neu wyneb yn wyneb
- trefnu digwyddiadau i ddysgu mwy am Cymorth Cristnogol a'n partneriaid
- rhoi cyngor ar gynnal digwyddiadau, gan gynnwys iechyd a diogelwch, diogelu data, yswiriant, a diogelu
- rhoi arweiniad ar sut i fancio, trin a chofnodi'r holl faterion sy'n ymwneud â chyllid
- croesawu ac ymateb i'ch adborth
- cydymffurfio â deddfau diogelu data wrth ddefnyddio a storio data
- os ydych chi'n rhan o grŵp, byddwn yn rhannu'r newyddion diweddaraf gyda threfnydd eich grŵp.

## Gallwch chi ein helpu ni drwy:

- rannu a chynrychioli amcanion a gwerthoedd Cymorth Cristnogol
- cefnogi Cymorth Cristnogol yn eich eglwys neu ardal drwy rannu adnoddau, cychwyn a hyrwyddo digwyddiadau, ac annog pawb i gymryd rhan
- gweithio gydag eglwysi lleol eraill a'u cefnogi os ydych chi'n rhan o grŵp
- bod yn barod i dderbyn gohebiaeth sy'n berthnasol i'ch rôl
- rhoi adborth i staff, rhannu syniadau, a gwneud awgrymiadau
- cysylltu â Cymorth Cristnogol gydag ymholiadau a rhoi gwybod am broblemau
- cydymffurfio ag arferion da wrth gynnal digwyddiadau, gan ystyried iechyd a diogelwch, diogelu data, yswiriant, cyllid a diogelu
- bancio neu dalu arian a godwyd ar gyfer Cymorth Cristnogol i mewn yn brydlon.

**Staff a gwirfoddolwyr Cymorth Cristnogol yn paratoi ar gyfer gorymdaith yng nghynhadledd newid hinsawdd COP26 yn Glasgow.**



Mae ein Cod Ymddygiad yn nodi'r hyn rydyn ni'n ei ddisgwyl gan bawb sy'n ymwneud â Cymorth Cristnogol, gan gynnwys ein holl wirfoddolwyr, staff a phartneriaid. Dyma'r ymrwymiadau sy'n ein helpu ni i gynnal ein cenhadaeth, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd.

## Cod Ymddygiad Cymorth Cristnogol

**Byddaf yn:**

1. Defnyddio'n gyfrifol unrhyw wybodaeth ac adnoddau y mae gen i fynediad atyn nhw yn sgil fy nghyflogaeth neu gysylltiad â Cymorth Cristnogol.
2. Sicrhau diogelwch, iechyd, lles a llesiant pawb sy'n cynrychioli Cymorth Cristnogol.
3. Sicrhau bod, ac y gellir gweld bod, fy ymddygiad personol a phroffesiynol o'r safon uchaf yn unol â chredoau, gwerthoedd a nodau Cymorth Cristnogol.
4. Cyflawni fy nyletswyddau a chynnal fy mywyd preifat mewn modd sy'n osgoi gwrthdaro buddiannau posibl gyda gwaith Cymorth Cristnogol a'm gwaith fel cynrychiolydd y sefydliad.
5. Ymwrthod ag unrhyw weithgareddau troseddol, gweithgareddau sy'n mynd yn groes i hawliau dynol neu'r rhai sy'n peryglu gwaith Cymorth Cristnogol.
6. Ymatal rhag unrhyw fath o aflonyddu, gwahaniaethu, cam-drin corfforol neu eiriol, bygwth neu ecsbloetiaeth, yn y gwaith a thu hwnt i'r gwaith.
7. Byddaf yn mynd ati i nodi a gwrthwynebu pob math o hiliaeth.

Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o ACT Alliance.  Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851 Rhif cwmni 5171525. Nodau masnachu Cymorth Cristnogol yw'r enw Cymorth Cristnogol a'r logo. Argraffwyd yn llwyr ar ddeunydd wedi tarddu o fforestydd a reolir yn gyfrifol. © Cymorth Cristnogol Rhagfyr 2022 Lluniau: Cymorth Cristnogol, Cymorth Cristnogol/Amy Menzies J321100